# Y WEITHDREFN AR GYFER AIL-GOFRESTRU CYNFYFYRWYR GRADD YMCHWIL I'W HARHOLI

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | 3.0 |
| **Dyddiad a gymeradwywyd gan y Senedd / ASQC** | Cymeradwywyd gyntaf: 18.05.2021 (ASQC)<br><br>Fersiwn gyfredol: 23.05.2024 (Newidiadau sylweddol) (ASQC) |
| **Dyddiad dod i rym** | 01.08.2024 |
| **Perchennog y ddogfen** | Llywodraethu Addysg (Ansawdd a Gweithrediadau PGR) |
| **Cysylltu** | pgr@caerdydd.ac.uk |
| **Rheoleiddio Rhiant** | Rheoliadau Gradd Ymchwil |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Polisi ynghylch Cyflwyno Traethodau Gradd Ymchwil yn Hwyr |

# CYNNWYS

1. Datganiadau Cyffredinol ........ 1
2. Gofyn am Ail-gofrestru at Ddiben arholiad ........ 1
3. Gweithdrefnau ailgofrestru ........ 2
Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch. ........ 4

# Y WEITHDREFN AR GYFER AIL-GOFRESTRU CYNFYFYRWYR GRADD YMCHWIL I'W HARHOLI

## 1. Datganiadau Cyffredinol

1.1 Mae Polisi'r Brifysgol ar gyfer Cyflwyno Traethodau Gradd Ymchwil yn Hwyr yn caniatáu i Ysgol dderbyn traethawd ymchwil i'w arholi hyd at 12 mis ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno. Gall myfyriwr ofyn iddynt ohirio cau ei gofnod yn ystod y cyfnod 'cyflwyno hwyr' hwn, er mwyn iddo gael mynediad i'w ebost, e-gyfnodolion a TG sylfaenol, ond nid oes hawl i gael goruchwyliaeth na mynediad i gyfleusterau'r Brifysgol y tu hwnt i'r hyn a ganiateir i'r cyhoedd. Os na wneir cyflwyniad o fewn 12 mis i'r dyddiad cau, mae cofnod y myfyriwr yn cael ei gau.

1.2 Efallai y bydd adegau pan fydd myfyriwr gradd ymchwil wedi'i dynnu'n ôl o'i raglen astudio a bod ei gofnod myfyriwr wedi cau, ond mae wedi parhau i astudio o dan ei arweiniad ei hun ac yn dymuno cyflwyno'r traethawd ymchwil i'w arholi. Mewn achosion o'r fath, gellir caniatáu ailgofrestru at y diben hwn yn unol â Pholisïau Derbyn safonol y Brifysgol, ac fel y disgrifir isod.

1.3 Mae'r Weithdrefn hon yn berthnasol i gyn-fyfyrwyr gradd ymchwil (PhD ac MPhil) y Brifysgol sy'n dymuno cyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi, ac:

.1 mae eu hymgeisyddiaeth (y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno neu ailgyflwyno) wedi dod i ben ers mwy na 12 mis, ac mae ei gofnod myfyriwr wedi'i gau; neu

.2 mae eu hymgeisyddiaeth (y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno neu ail-gyflwyno) wedi dod i ben ers llai na 12 mis, ond mae eu record myfyriwr wedi'i gau gan nad oedd wedi nodi eu bod yn bwriadu gwneud 'cyflwyniad hwyr'.

1.4 Mae'n rhaid i gynfyfyrwyr sy'n dymuno gwneud cais i ail-gofrestru yn unol â'r Weithdrefn hon fod wedi cwblhau'r cyfnod astudio gofynnol a ddiffiniwyd ar gyfer y rhaglen y maent eisiau ailymuno ag e. (Gweler Rheoliadau Graddau Ymchwil.)

1.5 Dylai myfyrwyr sydd â chofnod agored sydd eisiau cyflwyno traethawd ymchwil i'w arholi o fewn 12 mis i'w dyddiad cau ar gyfer cyflwyno, ddilyn y Polisi ar gyfer Cyflwyno Traethodau Gradd Ymchwil yn Hwyr.

1.6 Nid yw'r Weithdrefn hon yn berthnasol i fyfyrwyr presennol y Brifysgol, nac i fyfyrwyr a gofrestrwyd yn flaenorol ar raglen Doethuriaeth Broffesiynol neu MRes.

## 2. Gofyn am Ail-gofrestru at Ddiben arholiad

2.1 Er eich bod yn gyn-fyfyriwr, nid oes gennych chi hawl awtomatig i'ch traethawd ymchwil gael ei dderbyn i'w arholi (neu ei dderbyn i'w arholi eto).

Bydd gofyn i chi wneud cais i'r Brifysgol i ail-gofrestru ar y rhaglen gradd ymchwil berthnasol, ac, os caniateir hynny, bydd angen i chi dderbyn Telerau ac Amodau Cynnig safonol y Brifysgol.

2.2 Er mwyn gallu ystyried eich cais i ailgofrestru, bydd rhaid i chi gyflwyno drafft diweddaraf eich traethawd hir i Bennaeth yr Ysgol, neu ei enwebai, er mwyn cynnal adolygiad cychwynnol ohono.

2.3 Bydd Pennaeth yr Ysgol/enwebai yn ymgynghori â'ch cyn-oruchwyliwr/goruchwylwyr a/neu aelodau eraill o staff academaidd sydd ag arbenigedd pwnc priodol i benderfynu a allech gael eich ail-gofrestru er mwyn cyflwyno eich traethawd ymchwil i'w arholi. Penderfyniad Pennaeth yr Ysgol/enwebai fydd hyn.

2.4 Mae'r ffactorau a fydd yn cael eu hystyried yn cynnwys hyfywedd y traethawd ymchwil, pa mor gyfredol yw'r ymchwil, a fformat y gwaith mewn perthynas â gofynion cyflwyno'r Brifysgol ar gyfer traethodau ymchwil doethurol. Bydd argaeledd staff i asesu'r traethawd ymchwil ac i oruchwylio unrhyw gywiriadau gofynnol yn dilyn yr arholiad hefyd yn rhan o'r penderfyniad ynghylch a ddylid caniatáu ailgofrestru ar gyfer arholi.

2.5 Ni fydd derbyn y traethawd ymchwil i'w arholi yn rhagfarnu'r canfyddiadau na phenderfyniad yr arholwyr mewn unrhyw ffordd.

2.6 Os bydd Pennaeth yr Ysgol/enwebai yn penderfynu na ellir derbyn eich traethawd ymchwil i'w arholi ar hyn o bryd, ni chaniateir i chi ailgofrestru o dan y Weithdrefn hon. Gall Pennaeth yr Ysgol/enwebai, yn ôl eu disgresiwn, eich gwahodd i wneud cais i ailymuno â'ch rhaglen gradd ymchwil gyda statws uwch, yn unol â'r Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol (mynediad uwch at raglen gradd ymchwil).

## 3. Gweithdrefnau ailgofrestru

3.1 Os caniateir i chi ailgofrestru at ddibenion arholi, dylech wneud cais am fynediad i'r Brifysgol, er mwyn ailgofrestru ar raglen gradd ymchwil gyda'r dyfarniad arfaethedig perthnasol.

3.2 Eich statws ymrestru fydd: rhan-amser, dysgu o bell. Bydd rhaid cyflwyno'ch traethawd ymchwil yn ffurfiol i'w arholi o fewn un mis calendr i'ch dyddiad ymrestru. Bydd methu â chyflwyno o fewn y cyfnod penodedig yn arwain at derfynu'r rhaglen.

3.3 Bydd angen ffi arholiad pan gyflwynir y traethawd ymchwil, sy'n cyfateb i'r ffi cyflwyno a godir ar ymgeiswyr sy'n staff a'r ffi ailgyflwyno a godir ar ymgeiswyr a wahoddir i ailgyflwyno eu traethawd ymchwil yn dilyn arholi am y tro cyntaf; cyhoeddir y ffi dan sylw yn flynyddol. Os ydych chi'n ailgofrestru yn ystod y cyfnod ailgyflwyno, bydd yn rhaid i chi dalu ffi ailgyflwyno safonol y Brifysgol yn ogystal â ffi arholi.

3.4 Gan mai dim ond at ddibenion caniatáu i'ch traethawd ymchwil gael ei dderbyn i'w arholi yr ydych yn ail-gofrestru, ni fydd polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol o ran goruchwylio a monitro cynnydd yn berthnasol.

3.5 Pe bai amgylchiadau esgusodol yn codi ar ôl cyflwyno'r traethawd ymchwil i'w arholi, dylech chi roi gwybod am yr amgylchiadau yn unol â'r Polisi Amgylchiadau Esgusodol (Myfyrwyr Ymchwil).

**Atodiad: Cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd diwygiedig y DU ar gyfer Addysg Uwch.**

Mae'r polisi a'r weithdrefn hon yn cydymffurfio â Disgwyliadau ac Ymarferion Craidd Côd Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch:

| **Disgwyliadau ar gyfer Safonau** | **Disgwyliadau ar gyfer Ansawdd** |
|---|---|
| | O gael eu derbyn hyd at gwblhau, caiff yr holl fyfyrwyr y cymorth sydd ei angen arnynt i lwyddo mewn addysg uwch, ac elwa ohono. |
| **Arferion Craidd o ran Safonau** | **Arferion Craidd o ran Ansawdd** |
| | Mae gan y darparwr gyfleusterau, adnoddau dysgu a gwasanaethau cynorthwyo myfyrwyr digonol a phriodol er mwyn rhoi profiad academaidd o safon uchel. |
| | Pan mae'r darparwr yn cynnig graddau ymchwil, mae'n cyflwyno'r rheini mewn amgylcheddau ymchwil perthnasol a chefnogol. |
| | Mae'r darparwr yn cefnogi pob myfyriwr i lwyddo yn academaidd ac yn broffesiynol. |
| **Arferion cyffredin o ran Aafonau** | **Arferion cyffredin o ran Ansawdd** |
| Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer safonau yn aml ac yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. | Mae'r darparwr yn adolygu ei arferion craidd ar gyfer ansawdd yn aml ac yn defnyddio'r canlyniadau er mwyn ysgogi gwelliannau. |
| | Mae'r darparwr yn ymgysylltu â myfyrwyr yn unigol ac ar y cyd yn natblygiad, sicrwydd a gwelliant ansawdd eu profiad addysgiadol. |